

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 16, 2017

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn

Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Mai 16, 2017 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Llion Rh. Williams (Cadeirydd), Mordaf Roberts, Peredur Jenkins, Emlyn Roberts a Gerallt Griffith. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Hugh A. Evans..

3. Dewis Swyddogion

Cadeirydd: Llion Rh. Williams

Is Gadeirydd: Barry Jones

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones

Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith

Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts

Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton

Llywodraethwyr Ysgol Brithdir: Geraint R. Evans

Llywodraethwyr Ysgol Rhydymain:

3. Datgan diddordeb.

Roedd Llion Rh. Williams yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 8.iiii.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 21, 2017

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 21, 2017

Nid oedd materion yn codi.

7. Gohebiaeth

a. Derbyniwyd llawlyfr (30/3/2017) oddi wrth Lywodraeth Cymru. Llawlyfr 'Canllaw'r Cynghorydd Da' ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref.

b. Llythyr (10/4/2017) oddi wrth Swyddog Canlyniadau, Cyngor Gwynedd ynglŷn ag etholiad cynghorau cymuned – 4 Mai 2017. Mae yn cynwys y personau sydd wedi cael

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 16, 2017

eu hethol yn ddiwrthwynebiad. Amgáu mae ffurflen i'w gwblhau gan y personau.

Y personau sydd wedi cael eu hethol:

Machreth: Alun Meurig Ashton, Huw Alun Evans, Gerallt Meilir Griffith, Peredur Jenkins, William Barry Jones, Thomas Mordaf Roberts, Llion Rhydderch Williams. Uu sedd wag.

Brithdir: Geraint Evans, Rhun Pys Jones, Robert Emlyn Roberts. Un sedd wag.

Cynghorydd dros ranbarth Brithdir/ Llanfachreth/Ganllwyd/Lanelltyd: Peredur Jenkins.

Bydd angen cyfethol unigolion i lenwi seddi gweigion gyda rhybudd cyhoeddus yn datgan ein bwriad i gyfethol.

Penderfynwyd hysbysu am 1 aelod i Ward Machreth ac 1 i Ward Brithdir.

c. Llythyr (13/4/2017 a 5/5/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Hyfforddiant Gynefino i Gynghorwyr Newydd. Mae'r hyfforddiant yn Canolfan Hen Blas, Bala ar ddydd Mercher, 31/5/2017 am 6.30yh.

ch. Llythyr (12/4/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd. Maent yn cynnig cyfle i'r Cyngor wynebu un aelod fel 'Aelod Cymunedol' ar Bwyllgor Safonau Gwynedd. Bydd y Pwyllgor yn cwrdd tua 4 gwaith y flwyddyn. Bydd lwfans a chostau teithio ar gael.

d. Llythyr (18/4/2017) oddi wrth Un Llais Cymru gyda Templed Polisi Cyfryngau Cymdeithasol i'r Cyngor.

dd. Llythyr (18/4/2017) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o ffurflen 'Cofrestr Diddordebau Aelodau' bydd angen eu llenwi. Bydd BDO angen y wybodaeth.

Barry Jones sydd wedi datgan diddordeb yn 2016/2017.

e. Llythyr (Mai 2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent angen gwybod enw'r cynghorydd bydd yn cynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Ardal. Mae le i ddau ond dim ond un bleidlais sydd gan bob Cyngor.

Penderfynwyd i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i fod yn gynrychiolwyr.

f. Llythyr (9/5/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Gynhadledd Cynghorau Lleol Mwy a Gwobrau Arfer Blaengar Un Llais Cymru yn Hafod a Hendre, Maes Sioe Frenhinol Cymru ar Orffennol 5, 2017 am 9.30yb. Pris fesul cynrychiolydd yw £50.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio:

i. Cais NP5/54/440A. Trosi sgubor i uned gwyliau, codi sgubor ystlumod, gosod tanc septig, a creu lle parcio. Ysgubor Rhif 3, Coed Brithgwm, Brithdir.

ii. Cais NP5/54/439A. Codi llety gwyliau, gosod tanc septig, a chreu safle parcio a man troi. Ysgubor Rhif 4, Coed Brithgwm, Brithdir.

Anfonwyd llythyr (21/4/2017) i'r Parc yn gwahodd un o'u swyddogion i'n cyfarfod heno i gael gwybod beth yw polisi'r Parc ar fath yma o ddatblygiad lle mae perchennog am ddatblygu nifer o unedau ar safle.

Derbyniwyd llythyr ateb (24/4/2017) manwl i'r mater ac yn rhoi gwybod nid oedd yn bosib i'r swyddog fod yn bresennol i'n cyfarfod.

Anfonwyd llythyr (25/4/2017) i'r Parc yn gwahodd y swyddog i'n cyfarfod mis Mehefin i roi y wybodaeth ac i roi gwybodaeth gyffredinol ar geisiadau cynllunio.

Llythyr ateb (27/2/2017) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod bydd Swyddog yn dod i'n cyfarfod mis Mehefin.

Penderfynwyd rhoi penderfyniad ar geisiadau NP5/54/440A a chais NP5/54/439A wedi'r cyfarfod gyda Swyddog y Parc. Hefyd gwneud penderfyniad ar gais NP5/54/126D (gweler isod) wedi'r cyfarfod.

iii. Cais NP5/54/126D. Defnyddio llety gwyliau fel tŷ parhaol. Glyn yr Aur a , Hermon.

iiii. Cais NP5/54/450. Cynllun trydan dŵr arfaethedig i gynhyrchu hyd at 34kw yn cynnwys argae, pibell danddaearol, adeiladu tyrbin, all-lif, cysylltiad grid tanddaearol, a trac mynediad dros dro. Nant Helyg, Abergeirw.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

v. Cais NP5/54/240A. Dymchwel adeilad amaethyddol presennol a codi adeilad amaethyddol newydd. Braich Bedw, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

b. Llythyr (2/5/2017) yn rhoi gwybod mae gwahoddiad gan y Parc i gyfarfod blynyddol rhwng y Parc a chynghorau Cymuned a Thref. Bydd y cyfarfod yn Coed y Brenin ar ddydd Mawrth, Mehefin 13 am 6.30y.h. Maent eisiau gwybod cyn Mai 31 pwy fydd yn y cyfarfod.

Mae Llion Rh. Williams am fynd i'r cyfarfod.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 16, 2017

c. Llythyr (4/5/2017) yn rhoi gwybod bod yr Awdurdod yn cynnig 4 coeden afal i gymunedau lleol a helpu gyda'u plannu. Amgáu mae ffurflen i'w lenwi ac maent ei angen cyn diwedd Awst 2017.

Penderfynwyd derbyn y coed.

ch. Llythyr (15/5/2017) ynglŷn â chais cynllunio NP5/54/40A – Adeiladu tŷ tyrbîn newydd mewn cysylltiad â cynllun trydan dŵr presennol. The Old Creamery Rhydymain. Gwrthododd y Cyngor y cais yn 17 Chwefror 2015 oherwydd roedd lleoliad y tyrbîn am amharu ar fwynderau cymdogion. Ers hynny mae'r ymgeisydd wedi gwneud gwneud gwaith ymchwil ar effaith y tyrbîn ac o hyn wedi gwneud gwelliannau i'r cynllun. O'r gwaith ymchwil nid oes gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd unrhyw wrthwynebiad bellach i gymeradwy'r cais. Mae'r Awdurdod yn dymuno gwybod os mae gwrthwynebiad bellach i'r cais.

Penderfynwyd cefnogi'r cais ar yr amod bod ystyried yn cael ei roi i arbed sŵn nid yn unig i eiddo Fronwydd ond i eiddo eraill cyfagos.

9. Materion Ariannol

a. Llythyr (7/3/2017) oddi wrth Llên y Llannau yn diolch am ein rhodd o £50.

b. Llythyr (29/3/2017) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £200.

c. Llythyr (13/4/2017) oddi wrth Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £200.

ch. Bil (18/3/2017) am £46 oddi wrth Mr J.D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, am archwilio cyfrifon am y flwyddyn ariannol 2015 – 2016.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Llythyr (18/3/2017) oddi wrth Mr J.D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, yn dweud ei fod yn cynig ei hun fel archwiliwr mewnol am y flwyddyn ariannol 2016 – 2017. Mae wedi cael gwahoddiad i ymgymryd â'r gwaith gan rai cynghorau ac wedi derbyn. Mae eisiau gwybod os rydym ni angen ei wasanaeth. Os rydym, mae angen ein dogfenau ar Mai 25, 2017.

Rhodddwyd gwybod iddo (6/4/2017) mi fyddwn yn ddiolchgar iddo ymgymryd â'r gwaith fel archwiliwr mewnol y Cyngor.

Llythyr ateb (8/4/17) oddi wrth Mr Roberts yn diolch am y gwahoddiad i weithredu fel Archwiliwr Mewnol.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 16, 2017

dd. Dogfennau (12/4/2017) polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth AON am y cyfnod Mehefin 01, 2017 i Mehefin 01, 2018. Y tâl i'w adnewyddu yw £907.63. (Tal flwyddyn ddiwethaf oedd £900.54).

Penderfynwyd ddim derbyn AON fel ein hyswirwyr.

e. Anfonwyd (1/4/2017) copi o fanylion yswiriant y Cyngor i gwmni Zurich i gael pris ganddynt.

Llythyr (24/4/2017) a dogfennau polisi yswiriant oddi wrth Zurich gyda phris i yswirio'r Cyngor am y cyfnod Mehefin 01, 2017 i Mai 31, 2018. Y pris am flwyddyn yw £555.05. Y pris am 3 blynedd yw £524.58 (Long Term Agreement).

Penderfynwyd derbyn Zurich fel ein hyswirwyr a chael cytundeb am 3 blynedd. Hefyd talu'r ffi £524.58.

f. Llythyr (3/4/2017) oddi wrth Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro) yn rhoi manylion am y newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus. Amgáu mae tabl yn dangos y swm sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y cynghorau am 2017/18. Y swm ar gyfer ein Cyngor yw £490.30. Maent eisiau gwybod cyn 22 Ebrill os rydym am fod yn rhan o'r trefniant ad-dalu. Amgáu hefyd mae holiadur i'w gwblhau.

Rhodddwyd gwybod iddynt (12/4/2017) rydym am fod yn rhan o'r trefniant ad-dalu.

ff. Llythyr (16/3/2017) a Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 oddi wrth BDO LLP (Archwiliwr Allanol). Angen cwblhau'r ffurflen cyn Mehefin 20, 2017.

Anfonwyd adroddiad Cyfrifon y Cyngor am 2016-2017 i'r aelodau.

Cymeradwyd y ffurflen ac arwyddwyd y ffurflen gan y Cadeirydd a'r RFO (y Clerc).

Derbyniwyd llythyr (4/4/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod maent yn gwneud ymoliadau ynglŷn â sylw BDO yr angen i ddarparu cofnodion a chofrestr diddordebau yn Gymraeg a Saesneg.

g. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mawrth, 2017: £1,136.31.

h. Balans yn y banc ar 29 Mawrth, 2017: £4,310.48.

i. Llythyr (21/4/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynwys llythyr oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n rhoi gwybodaeth ar archwiliad 2015-16 ynglŷn â threfniadau rheoli ariannol cynghorau cymuned.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 16, 2017

j. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2016 - Mawrth 31, 2017:

Swm am: stampiau + papur + amlenni: £104.48.

Penderfynwyd talu'r costau.

I. Balans yn Account Rhif 61402277 ar Ebrill 29, 2017: £1,136.35.

II. Balans yn y Banc ar Ebrill 29, 2017: £6,582.16.

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

11. Materion Brys

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd:

i. mae angen cywiro y drych sydd ar ochr ffordd A494 wrth Goeden Fawr, Dolserau.

ii. mae angen drych ar gyffordd Ffrwd / Ffordd Lefel, Llanfachreth oherwydd peryglon i drafnidiaeth.

iii. mae angen archwilio cyflwr y coed sydd islaw'r lle parcio ceir Saith Croesffordd, Llanfachreth.

Llofnod:

Dyddiad: